

# Gweddiwn



## GWEDDI DROS BOBL AFFGANISTAN

GAN ROBIN SAMUEL,

*Cyfieithiad ac addasiad o weddi a ymddangosodd yn rhifyn mis Awst o  
gylchgrawn INSIGHT gan CWM*

Dduw trugaredd a heddwch,  
cyflwynwn i ti bobl Affganistan.

Bydd yn fara'r bywyd i bob un  
sy'n profi newyn yn ddyddiol;  
bydd yn iechyd ac yn gyflawnder bywyd  
i'r rhai sy'n methu cael gofal iechyd  
ynghanol anrheithiau'r pandemig;  
bydd yn wir gartref i bawb  
a ddadleolwyd;  
bydd yn freichiau agored a chynhwysol  
i bawb sy'n byw mewn ofn  
oherwydd eu rhywedd neu hil,  
eu daliadau crefyddol neu wleidyddol;  
bydd yn heddwch i bawb  
sy'n byw yng nghysgod ymladd a gwrthdaro.

Tro ein calonnau a'n meddyliau  
i'th ffyrdd di o heddwch a chyfiawnder,  
ac agor ein llygaid er mwyn i ni dy weld  
ym mhob gweithred o ofal a thosturi.  
Cryfha ein calonnau i sefyll yn un  
â'th bobl mewn dioddefaint,  
a chynnal ni yn dy gariad nad yw'n pallu nac yn methu.

Gweddiwn yn enw Iesu Grist  
yr un a wacaodd ei hun o bob peth ond cariad  
er mwyn dod a bywyd yn ei holl gyflawnder i bawb.

**Amen**